Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Pontsenni**
**Adran Ieuenctid**
**Ysgol Gynradd Pontsenni**
**Pontsenni**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 8SL**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**

**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Cylch chwarae cofrestredig yw Cylch Meithrin Pontsenni sy`n cyfarfod yn yr Adran Ieuenctid, Ysgol Gynradd Pontsenni ar ddau fore`r wythnos (Llun a Mercher) rhwng 9.30 y.b. a 12 y.p. dros gyfnod o 38 wythnos. Pentref bach yw Pontsenni mewn cymuned wledig, rhyw naw milltir i`r gorllewin o Aberhonddu ar yr A40. Saesneg yw`r brif iaith sy`n cael ei siarad yn y gymuned. Daw`r plant o gartrefi nad ydynt yn arbennig o freintiedig na difreintiedig ac nid oes un o`r plant presennol yn dod o gefndiroedd ethnig neu wedi cael eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysgol arbennig.

Mae`r lleoliad yn cynnwys neuadd sydd â rhan ohoni yn ardal i`r gegin. Mae`r neuadd wrth ymyl yr ysgol gynradd ac mae`r feithrinfa`n defnyddio`r cyfleusterau toiled a lleolir gerllaw. Caiff y neuadd ei defnyddio ar gyfer clwb brecwast yr ysgol a`r clwb ieuenctid ar gyfer gweithgareddau amrywiol, felly rhaid gosod offer chwarae ac offer eraill bob bore a chlirio ar ddiwedd y sesiwn. Fodd bynnag, mae`r cylch chwarae yn elwa o fod yn agos i`r ysgol gynradd, yn nhermau defnyddio rhai o adnoddau`r ysgol a thrwy gwneud defnydd o wybodaeth broffesiynol arbenigol staff yr ysgol gynradd. Daw`r plant yn gyfarwydd â`r ysgol gynradd ac mae athrawes Gymraeg y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â`r feithrinfa yn aml. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddiad yn plant sy`n dewis mynychu Ysgol Gynradd Pontsenni.

Mae`r lleoliad yn darparu addysg sy`n seiliedig ar ethos y Cyfnod Sylfaen ond cyfyngedig yw`r ardaloedd arddangos oherwydd defnydd y neuadd ar gyfer gweithgareddau eraill. Mae`r cylch chwarae yn defnyddio ardaloedd chwarae`r ysgol pan fyddant ar gael, ac yn cael defnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol dosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae`r Feithrinfa`n defnyddio`r iard chwarae ar gyfer chwarae tu allan gyda theganau mawr sy`n darparu ardal fawr ddiogel ar gyfer y plant. Mae`r plant yn elwa hefyd o ymweliadau â choedwig gerllaw`r ysgol, ac â siopau a chaffi`r pentref – mae ganddynt gysylltiadau cryf â`r gymuned.

Mae`r lleoliad wedi`i gofrestru i dderbyn uchafswm o 12 o blant. Mae`r cylch chwarae yn derbyn plant ar unrhyw adeg yn dilyn eu penblwydd yn ddwy oed ac mae`r plant yn symud ymlaen i`w haddysg gynradd ar ddechrau`r tymor maen nhw`n bedair oed. Ar hyn o bryd, mae naw o blant 3 oed sy`n cael eu hariannu.

Sefydlwyd cylch chwarae yn wreiddiol yn y pentref yn y 1970au ac mae`r arweinydd presennol yn ei swydd ers pedair blynedd. Yn ddiweddar mae cynorthwy-ydd wedi ymuno â hi. Mae gan yr arweinydd chwarae gymhwyster NVQ Lefel 3, ac mae hi wedi mynychu nifer o gyrsiau perthnasol. Yn ogystal, mae ganddi brofiad helaeth o weithio gyda phlant. Mae ei chynorthwy-ydd wedi hyfforddi fel athrawes.

Mae`r cylch chwarae yn elwa o gefnogaeth gan athrawes gefnogol Cyfnod Sylfaen Powys a Mudiad Ysgolion Meithrin. Arolygwyd y Cylch gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2010. Nid oedd unrhyw brif argymhellion.

Arolygwyd y lleoliad yn flaenorol gan Estyn yn 2006 ac mae`r lleoliad wedi mynd i`r afael â`r argymhellion. Nid oes unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Nodweddion da

- Ansawdd y cynllunio i fodloni anghenion y plant ac i ddatblygu eu medrau.
- Y safonau a gyflawnir gan y plant a chynnydd yr holl blant.
- Ystod ac ansawdd yr addysgu a`r cwricwlwm diddorol a ddarperir ar gyfer y plant.
- Darpariaeth ar gyfer sirchau lles y plant.
- Darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.
- Partneriaeth â`r ysgol, rhieni a mudiadau proffesiynol eraill.

Nodweddion digonol

- Gallu ieithyddol y plant yn yr iaith Gymraeg.

## Rhagolygon gwella

Nodweddion da

- Cyd-weithrediad y staff a`r effaith ar gynnydd a chyflawniad y plant.
- Bod yn agored i syniadau newydd a`r gallu i werthuso syniadau newydd.
- Partneriaeth â`r ysgol gynradd sy`n derbyn y plant a gyda rhieni.
- Y gefnogaeth a ddarperir gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.
- Hunan-arfarnu clir a chywir, a chynlluniau realistig a chyraeddadwy.
- Presenoldeb rheolaidd yr ymarferwyr ar gyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol.

Nodweddion digonol

- Y cyfleoedd cyfyngedig a ddarperir ar gyfer datblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i`r lleoliad:

(i) chwilio am ffyrdd i wella gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg*
(ii) datblygu gweithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol.

Noder * nodwyd hyn gan y lleoliad yn y cynlluniau datblygu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da drwyddi draw tuag at fodloni deilliannau priodol y Cyfnod Sylfaen yn unol â`u gallu. Maen nhw`n adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso eu medrau allweddol mewn gwahanol cyd-destunau ac ar draws pob maes dysgu. Mae`r plant yn dangos dyfalbarhad gan gymryd rhan mewn tasgau yn gyson, gydag ymdrech ganmoladwy.

Mae`r holl blant yn caffael amrywiaeth dda o fedrau ar draws pob maes dysgu. Maen nhw`n sgwrsio`n hapus â`u ffrindiau a gyda oedolion. Maen nhw`n medru gwrando, ateb cwestiynau oedolion fel pa fath o ddiwrnod yw hi. Mae`r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn caneuon a rhigymau Cymreig. Drwyddi draw, mae`r plant yn deall geirfa gynyddol yn yr iaith Gymraeg ac mae`r rhan fwyaf yn deall geiriau a chyfarwyddiadau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae`r holl blant yn dewis siarad yn Saesneg a rhaid i oedolion eu hannog i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg. Drwyddi draw, cyfyngedig yw geirfa Gymreig y plant o ganlyniad i gyfleoedd annigonol iddynt glywed ac ymarfer yr iaith Gymraeg.

Mae`r holl blant yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maen nhw`n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, gan ddangos lefelau da o annibyniaeth ac mae llawer yn siarad am eu dewisiadau. Mae`r plant fwy abl yn mwynhau storïau, yn gwrando`n dda ac yn ateb cwestiynau mae oedolion yn eu gofyn. Mae`r plant yn eistedd yn dawel ac yn gwrando`n astud gan ddilyn storïau Cymraeg ac mae`r rhan fwyaf yn deall prif bwyslais yn stori. Mae nifer yn medru ateb cwestiynau am y storïau hyn. Mae`r holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ac yn gyfarwydd â rhai o`r geiriau yn y stori.

Mae`r holl blant yn arbrofi wrth greu marciau gan ddefnyddio sialc a chreonau ac yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, fel gwneud rhestr siopa.

Mae gweithgareddau dyddiol y lleoliad yn cynnwys gweithgareddau fel cyfrif yn y Gymraeg, er enghraifft rhifo nifer y plant sy`n cael byrbryd. Maen nhw`n ymuno mewn rhigymau a chaneuon rhif syml gan ddangos ymwybyddiaeth o rif yn eu chwarae. Mae`r plant yn medru cyfateb siapiau a didoli gwrthrychau yn ôl lliw a siâp. Roedd llawer o blant wedi dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o gysyniadau mathemategol, fel maint wrth gymharu mawr a bach.

Mae`r holl blant yn datblygu eu medrau gwybodaeth a thechnoleg. Maen nhw`n gyfarwydd ag offer digidol gan gynnwys camerau a ffôn symudol ac yn cael cyfleodd rheolaidd i ddefnyddio cyfrifiaduron, fel wrth gynhyrchu patrymau lliw. Maen nhw`n datblygu`n ddefnyddwyr fwyfwy medrus o lygoden y cyfrifiadur a`r eiconau.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant agwedd bositif tuag at ddysgu ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu hamser yn y Cylch. Maen nhw`n awyddus i ddod i`r lleoliad yn y bore a nodwedd amlwg yw eu boddhad o gwrdd â`u ffrindiau. Mae`r plant yn cymryd rhan yn fuan yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Maen nhw`n hapus i weithio`n annibynnol neu mewn grwpiau bach. Mae`r plant yn fodlon rhannu, yn llawn cymhelliant ac yn ymddwyn yn gyfrifol. Pan gânt gyfle, maen nhw`n medru dewis eu gweithgareddau chwarae a gweithio`n annibynnol am gyfnodau priodol o amser. Fodd bynnag, maen nhw`n mwynhau gweithgareddau grŵp fel gwrando ar storïau ac adrodd eu profiadau.

Mae`r holl blant yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw`n lân, fel golchi dwylo a bwyta bwydydd iach.

Mae`r oedolion yn sensitif i farn y plant ac yn gwrando ar eu syniadau. Caiff y plant eu parchu fel unigolion ac yn cael eu hannog i ddangos gofal am eraill.

Nodwedd ragorol yw`r ffordd caiff y plant eu paratoi i symud i`r cam nesaf yn eu haddysg. Maen nhw`n adnabod athrawes y Cyfnod Sylfaen yn dda; mae hi`n ymweld â`r Cylch yn aml ac mae`r plant yn ymweld â`i dosbarth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, fel defnyddio`r cyfrifiaduron. Mae`r cysylltiadau ardderchog gyda`r ysgol yn hyrwyddo trosglwyddiad y plant.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cynllunio`n seiliedig ar y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant ac mae profiadau`r plant yn canolbwyntio`n dda ar sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae ansawdd y cynllunio`n dda a rhoddir amser priodol i`r chwe maes dysgu. Mae`r cynllunio`n llwyddiannus o ran ennyn diddordeb y plant o fewn cwricwlwm sy`n eang, cytbwys a pherthnasol.

Mae`r cynllunio`n cynnwys darpariaeth barhaus ar draws ystod eang o ardaloedd o wahanol weithgareddau. Mae`n darparu ar gyfer gweithgareddau gyda chefnogaeth yn ôl yr angen ynghyd â darpariaeth uwch ar gyfer y plant mwy abl. Drwyddi draw, mae`r cynllunio`n sicrhau bod anghenion yr holl blant yn cael eu bodloni pa beth bynnag yw eu gallu a`u cyrhaeddiad blaenorol.

Caiff y plant gyfleoedd da i weithio tu allan er eu bod yn amserau penodol gan nad oes gan y plant fynediad rhydd i`r tu allan.

Mae`r staff yn cynllunio ar y cyd gyda chydbwysedd da rhwng y dysgu sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion a dysgu sy`n cael ei sbarduno gan y plant. Mae`r berthynas yn ardderchog ac mae`r plant yn dangos goddefgarwch a pharch tuag at ei gilydd. Darperir cyfleoedd da ar gyfer dysgu annibynnol ac i`r plant ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol a dealltwriaeth o`r byd o`u cwmpas.

Mae pwyslais cryf ar waith llafar a phrif ffocws y ddwy sesiwn wythnosol yw`r gweithgareddau siarad a gwrando. Caiff rhieni rhestr o eiriau ac ymadroddion sy`n cael eu defnyddio yn y Cylch. Fodd bynnag, cymuned Seisnig yw hon ac nid yw`r plant yn clywed llawer o Gymraeg yn cael ei siarad tu allan i`r Cylch.

Mae`r plant yn dysgu am ail-gylchu – mae papur gwastraff a phethau plastig yn cael eu casglu, ac mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu ar wahan ar gyfer ail-gylchu.

Mae`r Cylch yn weithgredol wrth hyrwyddo traddodiadau ac arferion Cymru, fel wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi pan mae`r plant yn gwisgo`i fyny yn briodol, yn blasu bwyd traddodiadol o Gymru ac yn tynnu llun a pheintio eiconau Cymreig.

**Addysgu: Da**

Mae gan y ddau aelod staff brofiad helaeth o weithio gyda phlant ifanc ac mae eu dealltwriaeth drwyadl o ddatblygiad plant yn eu galluogi i ddarparu amgylchedd dysgu tawel a chefnogol. Mae gan y ddwy ymarferwraig ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen gan weithio gyda`i gilydd yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o`r plant yn nhermau eu datblygiad cymdeithasol ac academaidd ac mae hyn yn cael ei wireddu yn ymarferol.

Nodwedd dda a nodedig yw bod gweithgareddau ar adegau priodol, yn cael eu gwahaniaethu ac yn cyfateb yn dda ag oedran a gallu`r plant , er enghraifft amser stori. Mae rhyngweithio arbennig o dda rhwng y staff a`r plant ac mae`r staff yn ymwybodol iawn o bryd i ymyrryd a phryd i adael y plant i weithio`n annibynnol.

Ceir cydbwysedd da rhwng y gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio neu eu harwain gan oedolion – mae hyn yn wir wrth weithio y tu mewn neu tu allan. Mae`r strategaethau ymddygiad positif sy`n cael eu defnyddio gan y staff yn llwyddiannus iawn ac mae`r ddau oedolyn yn fodelau iaith da.

Mae`r plant yn elwa o ymweliadau i`r pentref ac i`r goedwig gyfagos. Mae hyn yn rhoi profiadau heriol a chyffrous i`r plant.

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd ac yn gynhwysfawr a chofnodir y canlyniadau. Mae`r staff yn ymwybodol iawn o gyrhaeddiad a gallu`r plant ac yn cynllunio gwaith cefnogi a darpariaeth uwch yn ôl yr angen. Dengys hyn bod y staff yn glir am yr hyn mae`r plant wedi`i gyflawni ond nid yw`n nodi`n glir y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol. Caiff y plant eu harsylwi yn ystod eu gweithgareddau dyddiol ac mae`r staff yn rhannu eu harsylwadau. Drwyddi draw, mae hyn yn system effeithiol sy`n sicrhau bod anghenion a diddordebau`r holl blant yn cael eu bodloni.

Cedwir cofnodion da mewn ffurf lluniau o gyflawniadau`r plant ond nid oes nodiadau arnynt i nodi`r medrau sydd gan y plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a diogelwch y plant. Hyrwyddir hyn gan y berthynas waith agos rhwng y Cylch a`r ysgol gynradd lle mae`r plant yn symud iddi – y dirprwy bennaeth yw Person Cyfrifol y Cylch. Maen nhw`n

cydweithio`n agos â`i gilydd a hefyd gyda gwasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol ac mae`r plant yn elwa o`r gefnogaeth broffesiynol sydd ar gael. Mae`r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os mae materion ynglyn â diogelwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu iechyd meddwl a chorfforol yn codi.

Mae`r Cylch yn defnyddio polisïau sydd wedi`u haddasu o rai a gafwyd gan Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith o ran diogelu plant a`r arweinydd yw`r person sy`n gyfrifol, yn y lle cyntaf, am ddelio gyda materion diogelwch a diogelu plant. Mae`r ddau aelod staff wedi mynychu cyrsiau yn ddiweddar ac yn llwyr ymwybodol o`u cyfrifoldebau. Mae`r gweithdrefnau`n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae`r Cylch yn nodi anghenion dysgu`r plant pan maen nhw`n dechrau yn y Cylch, a chefnogir unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol yn dda.

Mae`r trefniadau sefydlu`n effeithiol ac yn sicrhau bod plant yn ymsefydlu`n gyflym yn y lleoliad. Caiff rhieni eu hannog i aros gyda`u plant ar y dechrau er mwyn helpu`u plant i gyfarwyddo â`r gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer.

Mae`r profiadau dysgu`n hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae ymweliadau, gan gynnwys cerdded i`r goedwig ac ymhellach, yn rhoi cyfleoedd da i`r plant ddatblygu ymwybyddiaeth o`r byd o`u cwmpas. Mae`r awyrgylch da iawn o fewn y Cylch yn meithrin perthynas dda iawn a gofalgar lle mae`r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a`u trin â pharch. Mae`r Cylch yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd ac yn galluogi`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir. Mae`r plant yn dysgu rhannu ac yn dod yn rhan o`r gymuned leol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r Cylch yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal i`r holl weithgareddau. Caiff y holl blant eu parchu fel unigolion ac mae`r staff yn ymwybodol o`u disgwyliadau gwahanol. Mae amgylchedd dysgu ysgogol yn bodoli sy`n llwyddo i ennyn didordeb yr holl blant. Mae`r staff yn wyliadwrus wrth gefnogi`r plant syd angen cefnogaeth ond yn ymwybodol hefyd o adael i`r plant gael amser i ddewis eu hoff weithgareddau ac i weithio`n annibynnol.

Mae`r plant yn mwynhau awyrgylch sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol. Mae gan y Cylch gyflenwad digonol o adnoddau ac yn defnyddio rhai yn yr ysgol gynradd gyfagos yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cyfrifiadurol ac ardaloedd chwarae tu allan.

Mae`r lleoliad yn gyfleuster sy`n cael ei rannu ac felly rhaid gosod yr ystafell bob bore a`i chlirio ar ddiwedd pob sesiwn. Golyga hyn lawer iawn o waith i`r ymarferwyr. Yn ogystal, nid yw`n caniatáu i ddeunyddiau mawr ar gyfer arddangos gael eu gadael allan o un sesiwn i`r llall. Mae hyn yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae`r lleoliad yn ddiogel ac mae toiledau ar gael yn yr ysgol.

Mae gan y staff gymwysterau da a phrofiad da o weithio gyda phlant ifanc. Mae`r adnoddau yn addas ac yn ddigonol i fynd i`r afael â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i fodloni anghenion y plant.

Defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda i ymestyn profiadau`r plant.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r Cylch yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal i`r holl weithgareddau. Caiff y holl blant eu parchu fel unigolion ac mae`r staff yn ymwybodol o`u disgwyliadau gwahanol. Mae amgylchedd dysgu ysgogol yn bodoli sy`n llwyddo i ennyn didordeb yr holl blant. Mae`r staff yn wyliadwrus wrth gefnogi`r plant syd angen cefnogaeth ond yn ymwybodol hefyd o adael i`r plant gael amser i ddewis eu hoff weithgareddau ac i weithio`n annibynnol.

Mae`r plant yn mwynhau awyrgylch sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol. Mae gan y Cylch gyflenwad digonol o adnoddau ac yn defnyddio rhai yn yr ysgol gynradd gyfagos yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cyfrifiadurol ac ardaloedd chwarae tu allan.

Mae`r lleoliad yn gyfleuster sy`n cael ei rannu ac felly rhaid gosod yr ystafell bob bore a`i chlirio ar ddiwedd pob sesiwn. Golyga hyn lawer iawn o waith i`r ymarferwyr. Yn ogystal, nid yw`n caniatáu i ddeunyddiau mawr ar gyfer arddangos gael eu gadael allan o un sesiwn i`r llall. Mae hyn yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae`r lleoliad yn ddiogel ac mae toiledau ar gael yn yr ysgol.

Mae gan y staff gymwysterau da a phrofiad da o weithio gyda phlant ifanc. Mae`r adnoddau yn addas ac yn ddigonol i fynd i`r afael â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i fodloni anghenion y plant.

Defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda i ymestyn profiadau`r plant.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae`r Cylch wedi ymgymryd ag ymarfer hunanarfarnu manwl sydd wedi nodi ei gryfderau a`r meysydd i`w datblygu`n glir. Mae`r ymarferwyr yn hunan-feirniadol ac yn wyliadwrus ac yn edrych am ffyrdd i wella`r ddarpariaeth. Mae`r ddwy yn gweithio`n galed cyn pob sesiwn i osod amrywiaeth o weithgareddau ac gyfer y plant. Mae`r gweithgareddau`n canolbwyntio`n dda ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn ysgogi`r plant yn llwyddiannus.

Mae`r staff yn gwerthfawrogi`r plant fel unigolion ac yn ymateb yn bositif i`w hanghenion unigol. Caiff barn y plant eu gwerthfawrogi. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod croeso i rieni a gofalwyr a`u bod yn ymwybodol iawn o`r gwaith

sy`n cael ei wneud gan eu plant. Mae`r rhieni yn hollol gefnogol ac yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant.

Mae meysydd i`w gwella wedi`u blaenoriaethu – mae`r rhain yn realistig ac yn gyraeddadwy. Mae cynllun datblygu`r lleoliad yn nodi`n glir sut mae`r gwelliannau wedi`u cynllunio.

Mae`r ddau ymarferydd wedi mynychu cyrsiau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae eu presenoldeb ar gyrsiau fel hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Nodwedd dda a nodedig o`r lleoliad yw`r trefniadau partneriaeth sydd ar waith. Mae`r ysgol gynradd gyfagos yn darparu llawer o gyfleusterau sy`n cyfoethogi`r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae`r plant yn defnyddio`r cyfleusterau pwrpasol sydd gan blant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer chwarae a gweithgareddau eraill. Mae`r lleoliad yn defnyddio neuadd yr ysgol a`r iard chwarae ar gyfer gweithgareddau corfforol, gan gynnwys chwarae gyda theganau mawr. Hefyd, mae gan y plant hŷn fynediad i`r cyfrifiaduron yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r ymarferwyr yn elwa hefyd o gyngor proffesiynol gan athrawes y Cyfnod Sylfaen ac mae`i hymweliadau rheolaidd i`r feithrinfa yn golygu bod y plant yn ei hadnabod yn dda.

Mae Person Cyfrifol y Cylch yn aelod o staff yr ysgol ac ar gael bob amser fel canlyniad. Drwyddi draw, mae`r bartneriaeth gyda`r ysgol yn effeithiol a gwerthfawr iawn ac yn caniatáu i`r plant drosgwlyddo gyda chyn lleied o aflonyddwch.

Mae`r rhieni yn gefnogol iawn ac yn cael eu hysbysu`n dda o gynnydd eu plant. Mewn trafodaeth gyda sampl o gynrychiolwyr, roedd rhieni wedi datgan eu boddhad llwyr â`r Cylch, gyda`r staff gofalgar a`r cynnydd da mae`u plant yn ei wneud.

Mae`r Cylch yn elwa o gefnogaeth gan athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol yn ogystal â chefnogaeth Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cyd-weithio`n effeithiol iawn gan ategu ei gilydd yn eu rolau. Mae gan y Cylch adnoddau addas a defnyddir yr adnoddau`n dda i gymell y plant i ddysgu. Nodwedd arbennig o dda yw`r defnydd a wneir o`r amgylchedd awyr agored i ddatblygu medrau`r plant ar draws pob maes dysgu. Mae hyn yn cynnwys y cyfleusterau tu allan a ddarperir gan yr ysgol, ymweliadau â`r goedwig gyfagos ac i`r pentref ac ymhellach i ffwrdd.

Drwyddi draw, mae`r Cylch yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes unrhyw sylwadaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Wrth drafod, dywedodd y plant eu bod yn mwynhau dod i`r Feithrinfa.  Maen nhw`n mwynhau cwrdd â`u ffrindiau a chwarae.  Maen nhw`n mwynhau chwarae gyda`r teganau mawr ar yr iard yn arbennig, a mynd am dro i`r goedwig.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)